

# Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid

Cynllun Gweithredu i Gymru 2010-15



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc  
Young Wales

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)



-ie

Rhagair gan y Gweinidogion.....	2
1. Cyflwyniad.....	3
2. Adeiladu ar lwyddiant: heriau a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol.....	4
3. Cyflawni'r Cynllun Gweithredu 2010-15.....	7
i. <b>Ymgysylltu:</b> Hyrwyddo gwerth entrepreneuriaeth i greu cyfleoedd a datblygu pobl ifanc.....	8
ii. <b>Grymuso:</b> Darparu cyfleoedd dysgu entrepreneuriaid i bobl ifanc .....	12
iii. <b>Galluogi:</b> Cefnogi pobl ifanc i greu a thyfu busnesau.....	16
4. Mesur llwyddiant .....	20
Atodiad 1: Cefndir.....	21
Atodiad 2: Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu.....	22



ISBN 978 0 7504 5810 8

WAG10-10640

WAG 2621

© Hawlfraint y Goron 2010

# Rhagair gan y Gweinidogion

Mae'r *Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuencid* (IE), a lanswyd yn 2004, wedi cyflawni manteision pwysig i Gymru. Mae mwy o bobl ifanc yng Nghymru bellach am sefydlu eu busnesau eu hunain, ac mae cyfran yr unigolion sy'n gwneud hynny yn uwch o lawer na chyfartaledd y DU.

Nod y Strategaeth yw magu hyder pobl ifanc mewn entrepreneuriaeth fel y gallant chwarae rhan lawn ac effeithiol yn yr economi a'r gymuned. O'r herwydd, mae'n bwysig o hyd i lwyddiant unigolion, busnesau a chymdeithas.

Mae dysgu yn rhoi'r sgiliau a'r dyheadau i'n poblogaeth lywio economi lwyddiannus llawn busnesau hynod gystadleuol ac arloesol sy'n darparu swyddi o ansawdd da a ffyniant cynaliadwy i bawb. Mae hybu entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yn hanfodol os ydym am wella ein perfformiad a chreu cyfleoedd.

Mae'r Strategaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at ei thargedau ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi'i chydnabod am ei harfer da.

Dros y pum mlynedd diwethaf mae strategaeth IE wedi llywio'r broses o ddatblygu deunydd entrepreneuriaeth newydd a chyffrous ar gyfer y cwricwlwm, wedi dod ag entrepreneuriaid i mewn i'r ystafell ddosbarth ac wedi cefnogi busnesau graddedigion. Mae Cronfa'r Drydedd Genhadaeth wedi'i chyflwyno i Sefydliadau Addysg Uwch ac mae sefydliadau partner, megis Gyrfa Cymru, wedi integreiddio entrepreneuriaeth yn y cymorth y maent yn ei roi i bobl ifanc.

Mae *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* yn tynnu sylw at y pwysigrwydd a osodir gennym ar entrepreneuriaeth. Gan adeiladu ar yr hyn



**Leighton Andrews AC** -  
Y Gweinidog dros Blant,  
Addysg a Dysgu Gydol Oes



**Ieuan Wyn Jones AC** -  
Y Dirprwy Brif Weinidog a'r  
Gweinidog dros yr Economi  
a Thrafnidiaeth

sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn, mae'r Cynllun Gweithredu newydd wedi'i gynllunio i roi hwb i'r broses ac i sicrhau canlyniadau gwell fyth. Golyga'r dirywiad economaidd cyfredol a nifer y bobl ifanc sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar fod hyn yn bwysicach fyth.

Rydym yn ffodus yng Nghymru gan fod maint cymharol fach y wlad yn ein galluogi i ddwyn pobl ynghyd i rannu arbenigedd ac arfer gorau a defnyddio ein rhwydweithiau i ddatblygu atebion i broblemau cyffredin. Bydd trefniadau cydweithio a phartneriaeth o'r fath rhwng gwahanol sefydliadau a rhwng adrannau perthnasol Llywodraeth y Cynulliad yn arwain at lwyddiant yn y pen draw.

Mae'n arbennig o bwysig bod y rheini sy'n arwain, yn cefnogi ac yn dylanwadu ar bobl ifanc yn croesawu'r newid diwylliannol sydd ei angen i'w hannog i feddwl mewn ffordd entrepreneuriaidd a meithrin sgiliau entrepreneuriaidd wrth ddysgu neu weithio.

Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiolch i bob partner sydd wedi cyfrannu at y broses o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu hwn. Edrychwn ymlaen at ei gyflwyno gyda chi.

# 1. Cyflwyniad

Mae'r *Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuencid* (IE) yn dwyn ynghyd ddimensiynau gwahanol bolisiau Datblygu Economaidd ac Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ei nod yw rhoi sgiliau ac agweddau entrepreneuriaidd i bobl ifanc rhwng 5 a 25 oed i godi eu dyheadau er mwyn iddynt wireddu eu potensial beth bynnag y byddant yn dewis ei wneud yn eu bywydau gwaith yn y dyfodol.

Lansiwyd strategaeth IE yn 2004 i ddarparu strwythur a ffocws ar gyfer addysg entrepreneuriaeth yng Nghymru. Darperir manylion fel gwybodaeth gefndirol yn **Atodiad 1**. Bydd Cynllun Gweithredu newydd strategaeth IE yn cyfeirio at y term entrepreneuriaeth mewn ffordd gyfannol er mwyn adeiladu sgiliau a pharatoi pobl ifanc ar gyfer y dyfodol. Mae'r term hwn yn cynnwys pob gweithgarwch menter a phob math o fenter busnes, elw, nid er elw neu gymdeithasol.

Roedd y Cynllun Gweithredu yn y Strategaeth wreiddiol yn cwmpasu'r cyfnod 2004 a 2009. Mae'r Cynllun Gweithredu newydd hwn yn ymestyn yr agenda i 2015, gan gyflawni ymrwymiad Cymru'n Un i " greu a datblygu cysylltiadau rhwng addysg a mentergarwch ".

Mae'n adeiladu ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni ac yn darparu cam gweithredu allweddol yn y polisi Datblygu Economaidd newydd, *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd*.

Mae'r Weledigaeth isod, a nodir yn strategaeth IE, yn parhau i fod wrth wraidd y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2010-15:

**"Datblygu a meithrin pobl ifanc hunangynhaliol ac entrepreneuriaidd ym mhob cymuned ar draws Cymru, a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at lwyddiant economaidd a chymdeithasol."**

Mae taith entrepreneuriaidd pobl ifanc yn datblygu o feithrin mwy o ymwybyddiaeth i groesawu agweddau cadarnhaol, dysgu sgiliau entrepreneuriaidd ac, yn y pen draw, eu defnyddio, boed mewn busnes neu gyflogaeth.

Mae'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a gânt ar hyd y daith yn werthfawr i bob rhan o'u bywydau, p'un a ydynt yn sefydlu busnes neu'n gweithio mewn sefydliad yn y sector cyhoeddus neu wirfoddol, mewn cwmni amlwladol neu yn un o fusnesau bach a chanolig niferus Cymru. Mae angen rhinweddau entrepreneuriaidd deinamig ar bobl ifanc er mwyn iddynt gyflawni eu potensial, waeth pa gyfeiriad y byddant yn ei gymryd mewn bywyd.

Mae'r cydweithrediad a'r cymorth a roddir gan bartneriaid ledled Cymru yn un o gryfderau pwysig strategaeth IE. Felly, cafodd hyn ei ystyried yn ystod y broses o lunio'r Cynllun Gweithredu newydd yn dilyn ymgynghoriad eang yn ystod 2009-10. Bu mewnbyn rhanddeiliaid allweddol yn hanfodol i lunio'r ddogfen hon.

Mae'n hanfodol bod y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn cymryd cyfrifoldeb am y weledigaeth ei hun a'r camau y cytunwyd arnynt. Yn y pen draw, mae llwyddiant yn dibynnu ar ymrwymiad a chydweithrediad gwirioneddol gan bob rhanddeiliad.

Llywodraeth y Cynulliad fydd corff arweiniol y broses weithredu ond, rydym yn cydnabod bod angen i nifer o asiantaethau a sefydliadau gydweithio, felly caiff ein gwaith ei lywio gan Banel Cynllun Gweithredu strategaeth IE, yn cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol. Rhestrir crynodeb o gamau gweithredu yn **Atodiad 2**.

## 2. Adeiladu ar lwyddiant: heriau a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol

### Effaith camau gweithredu Strategaeth IE hyd yn hyn


Ers lansio'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid (IE) yn 2004, rydym wedi ein calonogi gan y cynnydd a wnaed o ran newid agweddau a chyfraddau dechrau busnes ymysg ein graddedigion.

#### Newid Agweddau

Mae gan bobl ifanc o dan 25 oed ddyheadau uwch i weithio iddynt hwy eu hunain a bod yn feistri arnynt hwy eu hunain o gymharu â'r

cyfartaledd ar gyfer y grŵp oedran 16-64. (Arolwg Omnibws Cymru)

#### Y dyhead i weithio iddynt hwy eu hunain a bod yn feistri arnynt hwy eu hunain




## Camau Cynnar Entrepreneuriaeth a Dechrau Busnes

Mae Adroddiad Arbennig y Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang: Persbectif Byd-eang ar Addysg a Hyfforddiant Entrepreneuriaeth 2008 yn tynnu sylw at bwysigrwydd Ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch o ran darparu sail ar gyfer entrepreneuriaeth.

Yn Adroddiad y Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang (GEM) ar gyfer 2009, nodir bod cyfradd y gweithgarwch entrepreneuriaidd cam cynnar yng Nghymru ar gyfer y rheini rhwng 18 a 24 oed yn 4.3%, sy'n uwch na chyfartaledd y DU o 3.4%.

### Gweithgarwch Entrepreneuriaidd Cam Cynnar (TEA) y Grŵp Oedran 16-24



Er bod lefel gyfartalog yr holl weithgarwch entrepreneuriaidd cam cynnar ymysg graddedigion yn y DU yn 7.3%, mae'r lefel o weithgarwch entrepreneuriaidd ymysg graddedigion yng Nghymru yn 8.5%, sy'n rhoi Cymru yn y 3ydd safle ar ôl Dwyrain Lloegr (9%) a Gorllewin Canolbarth Lloegr (8.9%) (GEM 2009).

Mae Arolwg Rhyngweithio Busnes a Chymuned - Addysg Uwch (HEBCIS) 2010 yn nodi bod Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn cyfrif am 5% o boblogaeth Addysg Uwch y DU ond yn cynhyrchu 10% o'r holl fusnesau newydd sy'n cael eu dechrau gan raddedigion yn y DU a

9% o gwmnïau gweithredol sy'n para am dair blynedd neu fwy.

### Arfer Da Rhyngwladol

Yng Nghynhadledd y Siarter Ewropeaidd i Fusnesau Bach yn 2008, enwyd strategaeth IE yn y 10 uchaf o ran arferion da mewn polisi Busnesau Bach a Chanolig a fyddai "fwyaf buddiol i'w rhoi ar waith." Mae Portiwgal, Norwy, Gwlad yr Iâ ac Albania bellach yn edrych ar y model Cymreig ac elfennau ohono, gyda'r bwriad o'i gyflwyno yn eu gwledydd eu hunain.


# Heriau'r Dyfodol

Er gwaethaf y cyflawniadau sylweddol a wnaed dros y pum mlynedd diwethaf, mae angen i ni gydnabod bod llawer i'w wneud o hyd.

Mae'r dirywiad economaidd wedi bod yn ergyd drom i bobl ifanc ac mewn rhai ardaloedd yng Nghymru mae bron hanner y bobl sy'n ddi-waith o dan 25 oed. Dros gyfnod o bum mlynedd mae'r gyfradd ddiweithdra ymysg pobl ifanc wedi cynyddu bron 50%. Mae nifer y bobl ifanc sy'n ddi-waith yng Nghymru yn uwch na chyfartaledd y DU (19.1% o gymharu â 18.4%).

Roedd yr *Arolwg o'r Llafurlu* yn amcangyfrif bod y gyfradd anweithgarwch economaidd ymysg pobl o oedran gweithio yng Nghymru yn 23.9% yn y tri mis hyd at fis Ebrill 2010. Er bod y ffigur hwn wedi gostwng o 24.2% yn ystod yr un cyfnod flwyddyn yn gynharach, mae'n uwch o lawer na chyfartaledd y DU, sef 21.5%.

## Diweithdra yn ôl Grŵp Oedran (y flwyddyn hyd fis Medi 2009)



Mae cyfnod hir o ddiweithdra yn gynnar mewn bywyd yn cael effaith ddifrifol a pharhaol ar unigolion. Hyd yn oed 25 mlynedd yn ddiweddarach, mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod gan yr unigolion hyn, ar gyfartaledd, incwm is, llai o sgiliau a'u bod yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith na'u cyfoedion. O ganlyniad, gall diweithdra ymysg pobl ifanc wanhau'r economi ac arwain at gostau cymdeithasol hirdymor.

Ni fu erioed cymaint o gystadleuaeth am waith. Felly mae'n hanfodol bod pobl ifanc yn gwella eu sgiliau entrepreneuriaidd ac yn eu defnyddio

fel y gallant addasu i heriau newydd a chael eu cymell i lwyddo. Bydd cyfalaf dynol yn dod yn elfen cynyddol bwysig ar gyfer llwyddiant economaidd yn y dyfodol ac mae cadw a denu unigolion medrus ag ysbryd entrepreneuriaidd a'r brwdfrydedd i lwyddo yn hanfodol i Gymru.

Mae un o bob saith o'r gweithlu yng Nghymru yn hunangyflogedig, ac mae'r ffigur hwn yn cynyddu. Fodd bynnag, mae nifer gymharol uchel o fusnesau mewn sectorau gwerth ychwanegol isel o hyd, ac mae nifer y busnesau yn yr economi wybodaeth, lle ceir mwy o gyfle i dyfu, yn bryderus o isel.

# Cyfleoedd


Wrth symud ymlaen mae angen i ni adeiladu ar yr hyn sydd wedi profi'n llwyddiannus, gan ddatblygu datrysiadau i ddiwallu anghenion a bodloni gofynion sy'n newid ac i oresgyn heriau cyfredol. Lle y byddwn yn nodi bylchau neu gyfleoedd newydd, gallwn fynd i'r afael â'r rhain, mewn llawer o achosion, drwy integreiddio meysydd gwaith ategol, gweithio mewn partneriaeth a defnyddio adnoddau presennol yn fwy effeithiol.

Byddwn yn

- Cysylltu â phobl ifanc ac yn meithrin sgiliau ac agweddau entrepreneuriaidd i'w helpu i gyflawni eu dyheadau
- Ysgogi diddordeb mewn entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar
- Canolbwyntio ar fusnesau newydd sydd â photensial uchel mewn sectorau allweddol â blaenoriaeth ac ymysg graddedigion
- Galw am gefnogaeth sefydliadau busnes a phartneriaeth i hyrwyddo entrepreneuriaeth ieuenctid

# Cysylltiadau Polisi

Ni fydd Cynllun Gweithredu strategaeth IE yn annibynnol, a bydd yn ceisio meithrin cysylltiadau ar draws meysydd polisi.





# 3. Cyflawni'r Cynllun Gweithredu

Bydd ein blaenoriaethau yn canolbwyntio ar bobl ifanc a sut gallwn eu tywys ar daith tuag at entrepreneuriaeth - gan godi eu hymwybyddiaeth, datblygu eu sgiliau entrepreneuraidd, ysgogi syniadau a rhoi gwybodaeth a chymorth ymarferol i'r rheini sydd am ddechrau busnes.

At hynny, bydd gan dair cynulleidfa strategol, sef addysg, busnes a'r gymuned, rôl allweddol i'w chwarae yn y broses o gefnogi pobl ifanc.

Caiff pob thema ei hategu gan strategaeth gyfathrebu drawsbynciol sy'n ceisio cydgysylltu polisiâu, helpu partneriaid, defnyddio rhwydweithiau a fforymau sefydledig a bodloni gofynion y pedair cynulleidfa a nodwyd.

Mae'r Cynllun yn cwmpasu tair thema gyflawni:

1. **Ymgysylltu:** Hyrwyddo gwerth entrepreneuriaeth i greu cyfleoedd a datblygu pobl ifanc
2. **Grymuso:** Darparu cyfleoedd dysgu entrepreneuraidd i bobl ifanc
3. **Galluogi:** Cefnogi pobl ifanc i greu a thyfu busnesau

Pobl Ifanc



Busnes



Ymgysylltu  
Grymuso  
Galluogi

Addysg



Y Gymuned



# Thema 1 Ymgysylltu:

## Hyrwyddo gwerth entrepreneuriaeth i greu cyfleoedd a datblygu pobl ifanc

Rhoddwyd pwyslais mawr ar godi proffil entrepreneuriaeth ieuencid ers lansio strategaeth IE yn 2004. Mae'r llwyddiannau allweddol yn cynnwys

- Hyrwyddwr entrepreneuriaeth ymhob Sefydliad Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Bellach i ddarparu dull cydlynol o ymdrin ag entrepreneuriaeth
- Digwyddiadau codi ymwybyddiaeth proffil uchel e.e. Yr Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang, sy'n cynnwys mwy na 3,600 o bobl ifanc yng Nghymru bob blwyddyn
- Modelau Rôl Dynamo yn cynnal 2,100 o weithdai ysbrydoledig bob blwyddyn, i gymell 42,000 o bobl ifanc i fod yn entrepreneuriaid

Mae'r polisi *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* yn nodi bod "angen inni greu mwy o ymwybyddiaeth o gyfleoedd a manteision entrepreneuriaeth er mwyn annog rhagor o bobl i ddechrau busnes, yn ogystal â helpu entrepreneuriaid sefydledig. Rydym am gadw a denu unigolion sy'n entrepreneuriaid ac yn meddu ar y sgiliau a'r uchelgais i lwyddo i greu cenedl gyfoes a deinamig." Felly, bydd parhau i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd entrepreneuriaid ymysg pobl ifanc yn parhau'n flaenoriaeth.

Byddwn yn

### Lansio Syniadau Mawr Cymru fel ymgyrch i ymgysylltu â phobl ifanc a phartneriaid ac ennyn eu diddordeb

Byddwn yn defnyddio pob math o ddulliau cyfathrebu gan gynnwys ar-lein, wyneb yn wyneb a'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â phobl ifanc mewn ffordd weithredol. Bydd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth glir, syml a pherthnasol

ar gael i bobl ifanc i'w hysbrydoli i ystyried entrepreneuriaeth a'u helpu i ddatblygu syniadau.

Byddwn hefyd yn darparu llwyfan effeithiol i'r Llywodraeth a phartneriaid hyrwyddo darpariaeth, rhannu arferion da ac adnoddau cwricwlwm a meithrin dealltwriaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael yng Nghymru drwy wefan [www.SyniadauMawrCymru.com](http://www.SyniadauMawrCymru.com). At hynny, byddwn yn trefnu cyfarfod blynyddol i bartneriaid er mwyn rhannu syniadau a chyfleoedd ar gyfer cydweithio, rhwydweithio ac adeiladu momentwm o feysydd polisi i feysydd darpariaeth.

### Cynnal gweithgareddau a digwyddiadau penodol i feithrin diddordeb mewn entrepreneuriaeth ac annog pobl i fod yn entrepreneuriaid, yn arbennig i'r rheini sy'n ddi-waith a/neu'n economaidd anweithgar

Yn unol â'r fframwaith sgiliau, bydd entrepreneuriaid, fel Modelau Rôl Dynamo, yn parhau i weithio mewn Ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch i helpu pobl ifanc i ystyried entrepreneuriaeth mewn ffordd ymarferol. Byddant hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc y tu allan i'r sector addysg i'w hannog i reoli eu dyfodol ac i ystyried sut gallant gyflawni eu potensial.

Yn unol â datblygiadau strategol ehangach, caiff myfyrwyr chweched dosbarth, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch eu hannog i gydweithio i ysgogi entrepreneuriaeth. Bydd y dull hwn o weithio mewn clystyrau yn annog partneriaethau, yn atgyfnerthu cysylltiadau ac yn cefnogi rhwydweithiau lleol a chanolfannau cymunedol.

Bydd Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn darparu gweithgareddau penodol wedi'u llunio i godi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth ac i annog myfyrwyr i fod yn fwy entrepreneuriaid.

Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd y gall entrepreneuriaeth eu cynnig yn arbennig o bwysig i'r rheini sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar. Byddwn yn datblygu *Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc* i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac i fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc.

Mae ymgysylltu â phobl ifanc y tu allan i addysg ffurfiol yn her, a bydd angen gweithio mewn ffordd annhraddodiadol. Drwy weithio gyda sefydliadau ieuencid statudol a gwirfoddol, gallwn helpu i godi hyder, cymhelliant a dyheadau'r grŵp hwn mewn ymateb i'r *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Ieuencid*, drwy sicrhau bod gwybodaeth am entrepreneuriaeth ar gael i bobl ifanc drwy sefydliadau ieuencid a Chymunedol a thrwy sefydlu entrepreneuriaeth ieuencid fel methodoleg ar gyfer y Gwasanaeth Ieuencid.

Bydd y rhaglenni sy'n olynu Adeiladu Sgiliau ar gyfer pobl ifanc ac oedolion yn parhau i gynnig

cyfleoedd i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, neu addysg bellach, lle y caiff hyn ei nodi fel angen dysgu. At hynny, bydd yn rhaid i ddysgwyr gwblhau cymhwyster Menter neu Gyflogaeth a Sgiliau Gwaith yn ystod lefel 1 y rhaglen olynol cyn symud ymlaen i lefel 2 er mwyn sicrhau y caiff 'dewis entrepreneuriaid' ei gynnig yn ffurfiol o ran datblygiad y dysgwr. Cyflwynwyd y gofyniad hwn ar ôl ystyried beth arall y gallwn ei wneud i annog pobl ifanc ddi-waith i ystyried hunangyflogaeth.

At hynny, bydd pobl ifanc sydd wrthi'n ailafael mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant yn cael cyngor entrepreneuriaid ac yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau entrepreneuriaid drwy Borth Ieuencid Gyrfa Cymru. Caiff hyn ei dreialu i ddechrau ac, ar ôl iddo gael ei werthuso'n briodol, gallai ddod yn rhan o ddarpariaeth Porth Ieuencid sefydliad newydd, unedig Gyrfa Cymru.

## Annog busnesau i ymgysylltu â phobl ifanc a sefydliadau academaidd

Mae agweddau entrepreneuriaid yn bwysig i gyflogwyr. Mae angen i ni atgyfnerthu partneriaethau rhwng busnes ac addysg i wneud y gorau o'r manteision posibl.

"Entrepreneuriaid heddiw yw'r catalyddion sy'n cyflymu'r broses o greu cyfoeth ar gyfer yr economi, darparu swyddi a chynnig ystod amrywiol o nwyddau a gwasanaethau i gwsmeriaid. Mae angen i ddysgu entrepreneuriaid ganolbwyntio cymaint ar ddatblygiad personol a sgiliau cymdeithasol ag y mae'n ei wneud ar ddatblygiad busnes, fel bod busnesau bach heddiw yn fan cychwyn ar gyfer storïau busnesau bach llwyddiannus y dyfodol."

*Russell Lawson, Ffederasiwn Busnesau Bach*

Mae rhwydweithiau cyflogwyr mewn sefyllfa dda i annog eu haelodau i ledaenu'r neges entrepreneuriaid yn y sector addysg. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau

sgiliau sector a chyflogwyr i annog eu haelodau i gymryd rhan weithredol yn Rhwydwaith Modelau Rôl Dynamo ac i dreialu trefniadau cysgodi entrepreneuriaid.

## — Astudiaeth Achos: Abigail Carter – Model Rôl Dynamo

Mae Abigail Carter wedi troi ei brwdfrydedd dros wyddoniaeth a chyfiawnder yn fusnes llwyddiannus. Ar ôl graddio mewn archaeoleg o Brifysgol Caerdydd, astudiodd Radd Meistr mewn archaeoleg fforensig a dadansoddi lleoliadau troseddau yn Bournemouth. Ar ôl cwblhau ei gradd Meistr, bu Abigail yn gweithio i gwmni DNA Fforensig lle cafodd ei hyfforddi ar gyfer ei chymwysterau DNA. Ar ôl gweld sefyllfa lle'r oedd cysylltiad rhwng gwyddoniaeth a busnes, gwelodd Abi fwch yn y farchnad a phenderfynodd ddechrau ei chwmni ei hun gyda help Cronfa Datblygu Gwybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Yn 2008, sefydlodd Abigail Forensic Resources Limited, cwmni gwyddoniaeth fforensig ymgynghorol sy'n arbenigo mewn gwasanaethau tystion arbenigol. Mae 90 y cant o'r gwaith yn ymwneud â throseddau ac ail-ddadansoddi adroddiadau erlyn ar gyfer timau amddiffyn cyfreithiol.

Daeth Abigail yn un o Fodelau Rôl Dynamo ym mis Mehefin 2009 i annog pobl ifanc i godi eu dyheadau a chyflawni eu potensial. "Mae'r cyffro sy'n gysylltiedig â mynd ati i reoli eich dyfodol a'ch busnes eich hun yn deimlad gwych," dywed Abigail. "Drwy ddeall ac esbonio'r cymhelliant sydd ei angen i lwyddo, gallwch annog a chefnogi disgyblion a fydd, yn eu tro, yn codi eu dyheadau ac yn creu cyfleoedd iddynt hwy eu hunain ac i eraill."

Mae Gyrfa Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â dros 20,000 o gyflogwyr bob blwyddyn i gefnogi addysg. Mae'r adroddiad annibynnol diweddar *Dyheadau'r Dyfodol: Datblygu Gwasanaethau Gyrfaoedd yng Nghymru* yn cydnabod hyn ac yn argymhell y dylid adfywio brand Partneriaethau Busnes Addysg (PBA) Gyrfa Cymru er mwyn arwain y gwaith o feithrin cysylltiadau rhwng addysg a busnes ac ymgysylltu â sefydliadau cyflogwyr ar lefel Fforwm PBA genedlaethol ac ar lefel ranbarthol briodol.

Mae meithrin cysylltiadau cadarn rhwng busnes a sefydliadau academaidd yn hanfodol os ydym am fasnacheiddio ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth er budd yr economi. Byddwn yn lansio porth gwybodaeth a fydd yn ganolbwynt ar gyfer yr arbenigedd a'r adnoddau sydd ar gael mewn Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Bellach Nghymru. Bydd Arbenigedd Cymru yn hwyluso gweithgareddau cydweithrediadol a throsglwyddo gwybodaeth ymysg cymunedau academaidd a busnes er mwyn gwella arloesed cwmnïau yng Nghymru

a'u gwneud yn fwy cystadleuol. At hynny, bydd y Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth yn galluogi sefydliadau i fod yn fwy cystadleuol a chynhyrchiol ac i wella eu perfformiad drwy gael gafael ar wybodaeth, technoleg a sgiliau mewn Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Bellach Nghymru.

Gan weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Entrepreneuriaeth Graddedigion, byddwn yn ystyried datblygu Rhwydweithiau Menter Prifysgolion. Bydd partneriaid y rhwydweithiau yn canolbwyntio ar feithrin cydberthnasau gwirioneddol rhwng busnesau/Addysg Uwch, mynd i'r afael â materion go iawn sy'n ymwneud â busnes, annog newid sefydliadol mewn Sefydliadau Addysg Uwch, sefydlu entrepreneuriaeth ar draws y sefydliad ac ysgogi gweithgarwch er mwyn ymgysylltu â graddedigion y dyfodol.

## O ganlyniad i'r ymyriadau hyn, mae'r Targedau 5 Mlynedd canlynol wedi'u nodi

Allbynnau	Unedau
Sesiynau ar <a href="http://www.SyniadauMawrCymru.com">www.SyniadauMawrCymru.com</a>	50,000 o sesiynau
Y defnydd o adnoddau ar-lein i brofi sgiliau entrepreneuraidd	12,500 o ddefnyddwyr
Sefydliadau partner sydd wedi'u cofrestru ar <a href="http://www.SyniadauMawrCymru.com">www.SyniadauMawrCymru.com</a>	150
Cyfranogwyr y tu allan i fyd addysg sy'n rhan o weithgareddau codi ymwybyddiaeth	300 *
Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc	I'w ddiffinio
Cyfranogwyr mewn Ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch sy'n rhan o weithgareddau codi ymwybyddiaeth	235,000
Entrepreneuriaid sy'n cael eu cefnogi i ymgysylltu â phobl ifanc	250
Prosiectau cydweithrediadol Prifysgolion a arweinir gan fusnes	3 prosiect rhwydwaith

\*Yn ddibynnol ar lwyddiant cynllun peilot y Porth Ieuencid

Effaith	Mesur
Pobl ifanc sy'n ymwybodol o hunangyflogaeth fel opsiwn gyrfa	Cynnydd o 5% ar linell sylfaen i'w phennu
Pobl ifanc sy'n ystyried gweithio iddynt hwy eu hunain	Cynnydd o 50% i 55%

Cerrig Milltir Allweddol	Dyddiadau
Lansio Syniadau Mawr Cymru	Tymor yr Hydref 2010
Lansio porth Arbenigedd Cymru	Tymor yr Hydref 2010
Datblygu Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc	Medi 2010
Sefydlu Rhwydwaith Menter Prifysgolion	Ebrill 2011
Ehangu rhwydwaith Modelau Rôl Dynamo	Medi 2010

# Thema 2 Grymuso:

## Darparu cyfleoedd dysgu entrepreneuriaid i bobl ifanc

Ers 2004 gwelwyd ffocws ar ail-alinio'r cwricwlwm, datblygu adnoddau entrepreneuriaid a hyfforddi athrawon a darlithwyr. Mae'r llwyddiannau allweddol yn cynnwys y canlynol

- Adolygu'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru i ganolbwyntio ar sgiliau ac i hwyluso'r broses o integreiddio entrepreneuriaeth
- Cynnwys entrepreneuriaeth yn fframwaith arolygu ESTYN ar gyfer Ysgolion a lleoliadau dysgu eraill
- Llunio Deunydd Cwricwlwm Dynamo ar gyfer myfyrwyr 5-19 oed a hyfforddi 2,000 o athrawon a darlithwyr
- 42,300 o bobl ifanc y flwyddyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau entrepreneuriaeth a mentor a hwylusir ar gyfer sefydliadau addysg drwy Gyrfa Cymru
- 16,000 o fyfyrwyr sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch y flwyddyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a hwylusir yn uniongyrchol gan Hyrwyddwyr Entrepreneuriaeth

Mae newidiadau i'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru wedi sicrhau bod mentor ac entrepreneuriaeth yn cael sylw amlwg yn *Gyrfaedd a'r byd gwaith; fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*. Mae entrepreneuriaeth hefyd wrth wraidd Bagloriaeth Cymru, cymhwyster arloesol sy'n cael ei astudio'n llwyddiannus gan fwy a mwy o fyfyrwyr 14-19 oed mewn Ysgolion uwchradd a Sefydliadau Addysg Bellach ledled Cymru.

Byddwn yn

**Darparu canllawiau ar-lein i Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach ddysgu entrepreneuriaeth a'i datblygu**

Mae *Llwybrau Dysgu 14-19* yn cynnig cyfle unigryw i bobl ifanc yng Nghymru. Yn y Craidd Dysgu dylent ddysgu sgiliau entrepreneuriaid ac archwilio'r byd busnes a gwaith. Drwy sicrhau mwy o ddewis yn y cwricwlwm lleol, efallai y caiff pobl ifanc hefyd y cyfle i ddilyn cwrs achrededig sy'n gysylltiedig ag entrepreneuriaeth. Bydd yr isafswm gorfodol o gyrsiau, fel sy'n ofynnol o dan *Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008*, yn sicrhau dewis ehangach i ddysgwyr ar Gam Allweddol 4 ac Ôl-16, gan gynnwys opsiynau galwedigaethol, drwy sicrhau bod yn rhaid i bob darparwr dysgu gydweithio i leihau achosion diangen o ddyblygu ac ehangu dewis y dysgwr. Gallai hyn olygu y caiff dysgwyr fwy o gyfleoedd i ddilyn cwrs achrededig sy'n gysylltiedig ag entrepreneuriaeth.

Wrth lunio'r cwricwlwm lleol, mae'n rhaid ystyried y galw gan ddysgwyr, anghenion y farchnad gyflogaeth leol a gallu partneriaid busnes ac addysg i'w chefnogi. At hynny, yng Nghraidd Dysgu *Llwybrau Dysgu 14-19*, ceir cyfleoedd i feithrin sgiliau ehangach mewn ystod o feysydd sy'n gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys datblygu sgiliau entrepreneuriaid.

Bellach mae angen i ni ddarparu canllawiau ar-lein i Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach ar sut i ddatblygu entrepreneuriaeth, i'w galluogi i ddatblygu continwmm o ddysgu entrepreneuriaid. Bydd hyn yn cynnwys

- gwneud y defnydd gorau o adnoddau dysgu entrepreneuriaid priodol megis gemau busnes, efelychiadau a chystadlaethau
- datblygu ac achredu cyfleoedd dysgu entrepreneuriaid
- sicrhau y caiff sgiliau entrepreneuriaid eu cynnwys yn *Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN* o hyd

Byddwn yn gwella cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i ymarferwyr addysgu ac i godi ymwybyddiaeth o arfer gorau o ran dysgu ac addysgu entrepreneuriaeth drwy Dynamo a deunyddiau eraill sydd eisoes yn bodoli. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith ymchwil diweddaraf ar y ffurfiau mwyaf effeithiol ar ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn cefnogi ymarferwyr i gydweithio gan ddefnyddio technegau fel hyfforddi a mentora, ymchwil weithredu a chymunedau dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu entrepreneuriaeth. Caiff gwerth entrepreneuriaeth ei hyrwyddo a chaiff hyn ei alinio â'r *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion*.

## Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu o brofiad sydd ar gael i bobl ifanc i archwilio entrepreneuriaeth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol

Mae ystod o bartneriaid yn rhan o'r broses o ddarparu cyfleoedd dysgu drwy brofiad i bobl ifanc.

Mae Gyrfa Cymru a sefydliadau partner, gan gynnwys Menter yr Ifanc Cymru a businessdynamics, yn hwyluso cyfleoedd dysgu drwy brofiad fel rhan o'u gweithgareddau cyswllt addysg busnes. Ceir gweithgarwch cysylltiadau addysg-busnes helaeth o ansawdd uchel, ond nid yw'r cyfleoedd yn gyson ledled Cymru. Mae *Dyheadau'r Dyfodol: datblygu gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru* yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gyrfa Cymru weithio gyda phartneriaid allweddol i greu ystod lawn o gyfleoedd ymhob maes ac ar bob cam o ddatblygiad person ifanc. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r mesurau sydd ar gael i Lywodraeth Cynulliad Cymru i annog darparwyr dysgu, cyflogwyr a busnesau i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyswllt addysg busnes.

## — Astudiaeth Achos: Celtic Enterprises

Mae Celtic Enterprises yn cynnig blas ar entrepreneuriaeth i bobl ifanc drwy brofiad busnes go iawn. Mae'r rhaglen, a luniwyd gan bartneriaid yn Gyrfa Cymru'r Gorllewin a De-ddwyrain Iwerddon yn rhoi dealltwriaeth o fusnes i bobl ifanc a chyfle i ddechrau busnes a masnachu. Mae syniadau busnes yn amrywio o grefftau mwy traddodiadol, cardiau cyfarch a chrysau T i syniadau mwy creadigol fel gwerthu gofod hysbysebu ar gefn gwartheg a chanllawiau ar siopa ar y rhyngwyd. O ganlyniad i'r prosiect mae newidiadau amlwg wedi'u gweld ym marn, ymddygiad, agweddau a gwybodaeth y bobl ifanc.

Mae gan sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch rôl bwysig i'w chwarae o ran datblygu sgiliau ac agweddau entrepreneuriaid myfyrwyr. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i weithio gyda Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Bellach i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu drwy brofiad er mwyn archwilio entrepreneuriaeth.

Mae dysgu anffurfiol yn addas iawn ar gyfer datblygu sgiliau entrepreneuriaid. Dros y

tair blynedd nesaf, rhagwelir y bydd sgiliau entrepreneuriaid yn dod yn rhan o Fethodoleg Gwaith Ieuenctid. Bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru yn sefydlu egwyddorion allweddol strategaeth IE yn gadarn yn y *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid* a chynlluniau gweithredu lleol er mwyn rhoi'r theori ar waith.

Mae nifer o Awdurdodau Lleol wedi croesawu'r agenda entrepreneuriaidd a bydd partneriaethau lleol megis Bae Abertawe a Sir Benfro a

rhaglenni fel Llwyddo'n Lleol a Pre-Vent yn gweithredu fel canolfannau ac yn darparu ffocws rhanbarthol.

## **— Astudiaeth Achos: Yr Her Entrepreneuriaeth Fyd-eang**

Mae'r Her Entrepreneuriaeth Fyd-eang (GEC) yn gystadleuaeth syniadau busnes dynamig, wedi'i chynllunio i annog entrepreneuriaeth ymhlith myfyrwyr Addysg Bellach ledled y byd.

Caiff myfyrwyr eu herio i gydweithio i feddwl am syniad busnes buddugol, llunio cynllun busnes proffesiynol yr olwg, adeiladu prototeip neu greu ymgyrch hysbysebu. Byddant yn cyflwyno eu syniad i banel o feirniaid o'r byd busnes. Mae dros 6,000 o fyfyrwyr o Gymru'n cymryd rhan, ac mae pob Sefydliad yn anfon ei dîm gorau i gystadlu yn rownd derfynol Cymru, sy'n 24 awr o hyd. Mae'r enillwyr yn cynrychioli Cymru yn rownd derfynol y byd GEC. Yn 2010 daeth Coleg Morgannwg yn drydydd yn rownd derfynol y byd, a gynhaliwyd yn Bali.

### **Hyrwyddo rhagoriaeth o ran dysgu ac arwain entrepreneuriaeth drwy rannu a meincnodi arfer da yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol**

Mae Cymru wedi'i chanmol yn helaeth ledled Ewrop am ei gwaith arloesol ym maes entrepreneuriaeth ieuencid. Mae strategaeth IE wedi'i chydabod gan y Comisiwn Ewropeaidd ac mae gwledydd fel Portiwgal, Norwy, Gwlad yr Iâ ac Albania yn ystyried sut y gallant efelychu'r hyn sydd wedi'i gyflawni yng Nghymru, gan gynnwys mabwysiadu'r model ACPT fel sail ar gyfer addysg entrepreneuriaeth.

Mae'r Bartneriaeth Ysgogi Addysg a Hyfforddiant Entrepreneuriaidd (SEET) wedi meithrin cysylltiadau cryf rhwng Cymru a nifer o wledydd partner Ewropeaidd. Drwy feincnodi perfformiad yn erbyn y gorau yn Ewrop a thu hwnt, anelwn at fanteisio ar lwyddiant a'i rannu ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol. Yn amlwg, rydym yn cydnabod bod addysg entrepreneuriaeth yn agenda fyd-eang felly rydym yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol i rannu a dysgu.

Yn agosach at adref, mae'r Academi Menter Genedlaethol wedi'i lansio'n llwyddiannus yn Lloegr. Academi achrededig unigryw ydyw sy'n meithrin y sgiliau a'r agweddau sydd eu hangen ar bobl ifanc 16-19 oed i ddechrau eu busnes eu hunain yn llwyddiannus neu i lwyddo mewn busnes sefydledig. Gan weithio gyda Sefydliad Peter Jones, byddwn yn ystyried y posibilrwydd o gynnal gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag academi menter genedlaethol yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau megis Cyngor Cenedlaethol y DU dros Entrepreneuriaeth Graddedigion ac yn cefnogi ein darparwyr addysg drwy ymgysylltu â'r Rhaglen Addysgwyr Entrepreneuriaeth Rhyngwladol, y Rhaglen Arwain Entrepreneuriaeth Rhyngwladol a'r Rhwydwaith Menter Prifysgolion a arweinir gan fusnes.



## O ganlyniad i'r ymyriadau hyn, mae'r Targedau Pum Mlynedd canlynol wedi'u nodi

Allbynnau	Unedau
Canllawiau ar-lein yn cael eu cynhyrchu ar gyfer Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach	Ddim yn berthnasol
Pobl ifanc mewn Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach yn ymwneud â chyfluoedd dysgu entrepreneuriaidd mewn amrywiaeth o amgylcheddau	200,000
Pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgarwch entrepreneuriaidd fel rhan o'r cwricwlwm	Yn ddibynnol ar gynnydd mewn Canolfannau ac Arian Bagloriaeth Cymru
Pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu drwy brofiad mewn sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch	50,000
Cysylltiadau â phartneriaid rhyngwladol	4

Effaith	Mesur
Entrepreneuriaeth yn cael ei chynnwys yn y Fframwaith DPP	Ddim yn berthnasol
Meincnodi yn erbyn targedau rhyngwladol y cytunwyd arnynt	Llinell sylfaen i'w phennu

Cerrig Milltir Allweddol	Dyddiadau
Cynnal Cynhadledd Entrepreneuriaeth Ryngwladol	Medi 2010
Dosbarthu canllawiau ar ddatblygiad entrepreneuriaidd i Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach	Ebrill 2012
Hyfforddiant peilot i athrawon/cynghorwyr	Fframwaith DPP wrthi'n cael ei ddatblygu
Ymgorffori entrepreneuriaeth mewn strategaethau, cynlluniau a rhaglenni ieuencid	Rhagfyr 2013
Cytuno ar set o feincnodau rhyngwladol a fframwaith monitro	Medi 2014

# Thema 3 Galluogi:

## Cefnogi pobl ifanc i greu a thyfu busnesau

Ers 2004 gwelwyd ffocws ar ddatblygu rhaglenni wedi'u teiwra i raddedigion sydd am ddechrau busnes ac integreiddio entrepreneuriaeth mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Mae'r prif lwyddiannu'n cynnwys y canlynol

- Cafodd 1,200 o raddedigion eu cefnogi i ddechrau eu busnes eu hunain
- Dyfarnwyd 619 o fwrsariaethau i raddedigion
- Mae Cronfa Trydedd Cenhadaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi'i sefydlu a'i hehangu

Byddwn yn

### Paratoi pobl ifanc i gymryd y camau nesaf tuag at ddechrau busnes

Er bod pobl ifanc yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch y syniad o ddechrau busnes, mae'n bosibl na fydd ganddynt y sgiliau na'r hyder i gymryd y camau cyntaf. Byddwn yn darparu amgylchedd diogel i bobl ifanc i'w helpu i nodi ac archwilio eu syniadau a phenderfynu a yw hunangyflogaeth yn ddewis da iddynt. O dan ymgyrch Syniadau Mawr Cymru byddwn yn dwyn ynghyd gyfleoedd i helpu pobl ifanc i ddatblygu syniadau a'u paratoi i wneud y penderfyniad i ddechrau busnes. Bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau, gweithdai penodol, cyfleoedd cysgodi, parthau menter a gofodau rhithwir mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Bydd Syniadau Mawr Cymru hefyd yn darparu llwyfan i bartneriaid hyrwyddo gweithgarwch perthnasol.

Bydd GO Wales yn rhoi cyfle i fyfyrwyr a graddedigion gael profiad gwaith â thâl yn seiliedig ar brosiectau gyda Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh). At hynny, bydd Gweithwyr Llawrydd GO Wales hefyd yn cynnig cwrs a rhaglen gymorth unigryw wedi'u teiwra i helpu graddedigion yng Nghymru i ddechrau gyrfa fel Gweithiwr Llawrydd.

Drwy brosiect Blas ar Fenter, caiff pobl ifanc y cyfleusterau i brofi masnach er mwyn mireinio eu sgiliau entrepreneuriaid. Bydd gweithgareddau entrepreneuriaid i bobl ifanc yn canolbwyntio ar ardaloedd adfywio strategol megis Blaenau'r Cymoedd a Môn a Menai. Caiff entrepreneuriaid ifanc hefyd eu cyfeirio at gronfeydd sbarduno lleol a rhanbarthol a ddarperir gan Awdurdodau Lleol.

Byddwn yn treialu dulliau gwahanol er mwyn ymestyn y ffocws i bobl ifanc dan anfantais a'r rheini mewn amgylcheddau nad ydynt yn gysylltiedig ag addysg, yn enwedig mewn ardaloedd adfywio strategol. Gan weithio gyda phartneriaid allweddol megis Ymddiriedolaeth y Tywysog, byddwn yn ceisio cyfleoedd i bobl ifanc ddi-waith ystyried hunangyflogaeth fel dewis realistig ar gyfer eu gyrfa.



## Astudiaeth Achos:

### Cwrs Archwilio Menter Ymddiriedolaeth y Tywysog

Yn 2008, cafodd y cwrs Archwilio Menter ei ailgyflwyno gan Ymddiriedolaeth y Tywysog i helpu pobl ifanc i ystyried eu syniadau busnes a phenderfynu a oes ganddynt y sgiliau i ddechrau busnes.

Drwy gydol y pedwar diwrnod maent yn gweithio gyda swyddogion datblygu o'r ymddiriedolaeth a gwirfoddolwyr o fusnesau i archwilio eu syniadau busnes ac ystyried eu strategaethau marchnata, eu dulliau o werthu, eu trefniadau cynllunio a'r cyllid sydd ar gael iddynt.

Aeth Simon Curley ar y cwrs yn 2009 ac aeth ymlaen i lansio Curley Locks Locksmiths.

"Roeddwn wedi bod yn ddi-waith ers chwe mis, ac ystyriais hunangyflogaeth am y tro cyntaf ar ôl cyfarfod yn y Ganolfan Gwaith. Cyn cymryd rhan ar y cwrs roeddwn yn meddwl fel cyflogai. Roedd gennyf chwe mlynedd o brofiad a sgiliau saer cloeau ond nid oeddwn erioed wedi ystyried yr holl waith sydd angen ei wneud i redeg busnes - hysbysebu, rheoli cyfrifon ac ati. Gwnaeth y cwrs fy annog i feddwl am fusnes a ph'un a oedd gennyf y sgiliau i ddechrau fy musnes fy hun. Roedd yn braf cael cwrdd ag eraill a oedd yn yr un sefyllfa â mi."

Dywed Anita Thomas o Ymddiriedolaeth y Tywysog, "Mae'r rhaglen ar agor i bob person ifanc sydd wedi bod yn ddi-waith am dros chwe mis. Mae'r rheini sydd wedi gadael addysg heb lawer o gymwysterau, os o gwbl, yn gweithio ochr yn ochr â graddedigion. Mae eu brwdfrydedd dros fenter, waeth beth fo'u cefndir, yn arbennig. Rydym am harneisio'r brwdfrydedd hwnnw a'u helpu i gyflawni eu huchelgeisiau."

### Cynorthwyo pobl ifanc i ddod yn hunangyflogedig

Mae angen cymorth a chanllawiau priodol ar bobl ifanc sy'n dechrau busnes. Er bod ganddynt ddigon o frwdfrydedd dros entrepreneuriaeth, yn aml nid oes ganddynt ddigon o hyder, sgiliau na phrofiad. Felly mae angen i ni barhau i roi gwybodaeth am wasanaethau cymorth busnes a sicrhau y gall unigolion gael gafael ar y gwasanaethau hynny er mwyn sicrhau y gall pobl ifanc fanteisio ar y cymorth hwnnw.

Mae hunangyflogaeth yn ateb effeithiol i anweithgarwch economaidd ac fe roddwn flaenoriaeth i hunangyflogaeth i fynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â chyfranogi yn yr economi, gan gynnwys cymorth i bobl ifanc. Mae Gwasanaeth Dechrau Busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n cael ei werthuso a byddwn yn sicrhau bod cymorth yn y dyfodol yn

adlewyrchu'r polisi a amlinellir yn *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd*. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wrthi'n adolygu ei hagenda o fudd-dal i waith a byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU yn y maes hwn.

### Sicrhau bod gwasanaethau cymorth yn canolbwyntio ar fusnesau newydd sydd â photensial uchel, yn arbennig mewn sectorau allweddol â blaenoriaeth ac ymysg graddedigion

Er mwyn i Gymru gystadlu ar lefel fyd-eang, mae angen i ni hwyluso arloesedd, prosesau trosglwyddo gwybodaeth a masnacheiddio. Mae'r potensial sydd gan bobl ifanc i nodi cyfleoedd i ddechrau busnes mewn sectorau allweddol yn hanfodol er mwyn datblygu'r

economi wybodaeth. Mae'r polisi *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd* yn rhoi "mwy o bwyslais ar fusnesau sy'n dechrau sydd â photensial uchel ac sydd ag ansawdd uchel o ran swyddi a'r incwm y maent yn eu cynhyrchu yn enwedig yn y sectorau allweddol ac ymysg graddedigion i effeithio ar lefelau ein cyfraddau genedigaethau." Ceir darpariaeth wedi'i theilwra ar gyfer graddedigion sydd am ddechrau busnes.

Byddwn yn gweithio gyda Wesley Clover i lunio Rhaglen Entrepreneuriaeth Graddedigion er mwyn creu cenedlaeth newydd o gwmnïau technoleg ddigidol. Caiff graddedigion medrus o sefydliadau Addysg Uwch ledled y DU eu

goruchwylio a'u hyfforddi'n ddwys i feithrin eu sgiliau entrepreneuriaidd a'u galluogi i sefydlu cwmnïau newydd i fanteisio ar y cyfleoedd masnachol sy'n gysylltiedig â chynhyrchion/datrysiadau TGCh newydd.

Bydd Cyllid Cymru yn buddsoddi mewn Busnesau Bach a Chanolig yng Nghymru, gan gynnwys busnesau newydd a sefydlwyd gan raddedigion a busnesau technoleg.

Caiff cyllid Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Llywodraeth Cynulliad Cymru eu halinio i ddarparu dwy ffynhonnell o gymorth i ddatblygu'r agenda entrepreneuriaeth ym maes Addysg Uwch.

## Astudiaeth Achos: True Reflections UK Ltd

Dechreuodd y daith pan enillodd James y wobr gyntaf am ddylunio clo i sgîs mewn cystadleuaeth genedlaethol i entrepreneuriaid ifanc. Er gwaethaf ei lwyddiant, ni chafodd gyfleoedd i farchnata'r cynnyrch. "Rwy'n credu i'm cyfeiriad e-bost Hotmail gael effaith negyddol - nid oedd pobl yn fy nghymryd o ddifrif".

Felly, ymunodd James â'i ffrind Ben, a oedd hefyd yn astudio dylunio, i sefydlu eu cwmni dylunio cynnyrch eu hunain, True Reflections, ym Mae Colwyn. "Edrychom ar y gystadleuaeth a meddwl, 'gallwn ni wneud yn well na hynny'. Yn ogystal â hyn, roedd yr hinsawdd economaidd wedi lleihau nifer y swyddi a oedd ar gael i ddylunwyr - gwnaethom benderfynu cyflogi ein hunain os nad oedd unrhyw un arall am ein cyflogi!"

Y cam nesaf oedd cysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael help i gynllunio'r busnes, llunio rhagolwg ariannol a gwneud cais am Fwrsariaeth Dechrau Busnes i Raddedigion. "Cawsom lawer iawn o gymorth. Roedd ein mentoriaid busnes yn drylwyr iawn, ond ni wnaethant geisio dylanwadu ar ein penderfyniadau, a oedd yn bwysig iawn." Er bod James a Ben yn llawn ysbrydoliaeth, nid oedd ganddynt lawer o brofiad masnachol. "Roedd angen meithrin rhai sgiliau sylfaenol", ac fel busnes newydd sbon nid oedd yn bosibl iddynt gyflogi rhywun i gyflawni'r dyletswyddau dyddiol hyn tra'u bod wrthi'n meddwl heb orwelion. Ond ar ôl cwblhau nifer o gyrsiau cyfrifyddiaeth a datblygiad proffesiynol, mae'r pâr bellach ar eu ffordd i gyflawni eu breuddwyd o gael eu cydnabod, fel gwyr busnes a dylunwyr, am wneud cyfraniad sylweddol i'r diwydiant.

## Manteisio ar brofiad ac arbenigedd y gymuned fusnes i gefnogi entrepreneuriaid ifanc

Mae cydberthnasau rhwng cymheiriaid a chydberthnasau â mentoriaid yn y gymuned fusnes yn bwysig i entrepreneuriaid ifanc. Ym meysydd Addysg Bellach ac Addysg Uwch, bydd clybiau Menter yn rhoi cyfle i entrepreneuriaid ifanc feithrin cydberthnasau o'r fath.

Awgryma adborth gan gyflogwyr fod cryn frwdfrydedd ymysg busnesau yng Nghymru dros ymgysylltu â mentrau newydd yn eu cymunedau. Mewn partneriaeth â'r sector preifat a'r sector gwirfoddol, yn arbennig Elusennau'r Tywysog, byddwn yn llunio Fframwaith Mentoriaid Busnes Gwirfoddol. Byddwn yn sicrhau y caiff trefniadau i fentora pobl ifanc eu cynnwys yn y fframwaith cyflawni ac yn nodi mentoriaid a all gefnogi entrepreneuriaid ifanc mewn busnes.

### O ganlyniad i'r ymyriadau hyn, mae'r Targedau Pum Mlynedd canlynol wedi'u nodi

Allbynnau	Unedau
Pobl ifanc a ddaeth i ddigwyddiadau Syniadau Mawr Cymru	1,000
Pobl ifanc sy'n cael cymorth i ddechrau busnes	3,500
Graddedigion sy'n cael cymorth i ddechrau busnes	1,500
Nifer y bwrsariaethau ariannol a ddyfarnwyd	250
Cyfleoedd mentora i bobl ifanc	150

Effaith	Mesur
Proffil pobl ifanc 18-24 oed sy'n weithgar yn entrepreneuraidd	Yn aros yn uwch na chyfartaledd y DU
Proffil cwmnïau newydd a sefydlwyd gan Raddedigion sydd wedi goroesi am 3 blynedd, fel % o boblogaeth y DU	
% y cwmnïau a sefydlwyd gan Raddedigion, fel % o boblogaeth y DU	

Cerrig Milltir Allweddol	Dyddiadau
Sefydlu Fframwaith Mentora Busnes ar gyfer Gwirfoddolwyr	Ebrill 2011
Treialu digwyddiadau Syniadau Mawr Cymru	Medi 2011

# 4. Mesur llwyddiant

Caiff y Cynllun Gweithredu ei lywio a'i gyflwyno drwy'r strwythur canlynol.

## Panel Cynllun Gweithredu strategaeth IE

Dylid ystyried strategaeth IE yn fuddsoddiad hirdymor ym mhotensial entrepreneuriaidd, hyder, sgiliau a gallu pobl ifanc Cymru.

Mae'n hanfodol ein bod yn deall effaith lawn y Cynllun Gweithredu cyfan. Felly, caiff Panel ei sefydlu ar gyfer y Cynllun Gweithredu i lywio'r ymateb i anghenion strategol newidiol. Bydd prosiectau a mentrau unigol yn rhoi eu trefniadau monitro a gwerthuso unigol ar waith, a chaiff gwybodaeth ei bwydo i'r Panel yn ôl y gofyn. Bydd y Panel yn cynnwys cynrychiolaeth o'r rhanddeiliaid allweddol o feysydd datblygu economaidd ac addysg, cynrychiolwyr o fusnesau a sefydliadau gwirfoddol. Byddwn hefyd yn cyfethol arbenigwyr perthnasol ar themâu trawsbynciol.

Bydd y Panel yn gwneud y canlynol

- Cytuno ar dargedau a awgrymir ar gyfer y Cynllun Gweithredu
- Monitro cynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd
- Cytuno ar fframwaith gwerthuso i fesur effaith, gan gynnwys mesurau ansoddol a meintiol a meincnodau rhyngwladol
- Darparu canllawiau ar sicrhau ansawdd
- Gwneud argymhellion ar gyfeiriad ar gyfer y dyfodol yn unol â blaenoriaethau economaidd newidiol
- Sicrhau bod partneriaid arweiniol yn cyflawni'r ymrwymadau a wnaed mewn perthynas â phrosiectau/rhaglenni unigol a'u bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn camau'r Cynllun Gweithredu yn rheolaidd

## Ysgrifenyddiaeth y Cynllun Gweithredu

Bydd y Tîm Entrepreneuriaeth leuenctid yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer Panel Cynllun Gweithredu strategaeth IE

## Partneriaid a Rhanddeiliaid

Bydd partneriaid a rhanddeiliaid yn

- Llywio'r agenda entrepreneuriaeth ar lefel leol a rhanbarthol
- Datblygu'r ddarpariaeth bresennol ac yn hyrwyddo a sicrhau ymwybyddiaeth, profiadau a chyfleoedd entrepreneuriaidd
- Hyrwyddo gwaith partneriaeth ac agendâu a rennir
- Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn camau'r Cynllun Gweithredu

# Atodiad 1: Cefndir

Nodwyd y canlynol gan strategaeth IE

- **Gweledigaeth** ar gyfer menter ac entrepreneuriaeth sef “datblygu a meithrin pobl ifanc hunangynhaliol ac entrepreneuraidd ym mhob cymuned ar draws Cymru, a fydd yn cyfrannu’n gadarnhaol at lwyddiant economaidd a chymdeithasol.”
- **Diffiniadau** o Entrepreneuriaeth a Menter y cytunwyd arnynt gan randdeiliaid ac sy’n gyson â pholisi’r UE
  - Mae a wnelo **addysg entrepreneuriaeth** â datblygu agweddau a sgiliau pobl ifanc i’w helpu i gyflawni eu potensial. Mae a wnelo hefyd â’r brwdfrydedd i wireddu syniadau ac i fanteisio ar gyfleoedd, gan alluogi pobl ifanc i fod yn bositif, yn rhagweithiol ac yn llwyddiannus yn eu hymagwedd tuag at fywyd a gwaith
  - Mae a wnelo **addysg menter** â rhoi’r cyfle i bobl ifanc ddefnyddio eu sgiliau a datblygu eu dealltwriaeth mewn ffyrdd ymarferol
- Mewn gwirionedd, mae’r camau a gynigir yn y Strategaeth yn cwmpasu entrepreneuriaeth a menter mewn ffordd integredig a di-dor
- **Model** i feithrin gwell dealltwriaeth o entrepreneuriaeth yn y sector addysg:

Mae’r model **ACPT** yn cyflwyno pedair elfen allweddol o ymddygiad entrepreneuraidd:

## Agwedd

- Gwybodaeth, cred a hyder
- Cymhelliant
- Dyhead
- Penderfyniad
- Cystadleurwydd

## Perthynas

- Gweithio gydag eraill
- Rheoli sefyllfaoedd anodd
- Trafod, darbwyllo, dylanwadu
- Cyflwyno
- Cyfathrebu



## Creadigrwydd

- Datrys problemau
- Meddwl ochrol / meddwl am syniadau
- Nodi a chreu cyfleoedd
- Arloesi

## Trefniadaeth

- Cynllunio
- Rheoli adnoddau
- Gwneud penderfyniadau
- Gwaith ymchwil / deall yr amgylchedd
- Pennu gweledigaeth / nod
- Rheoli risg

- **Strwythur ar gyfer cyflwyno** menter ac entrepreneuriaeth
  - **Ymwybyddiaeth** - datblygu diwylliant entrepreneuraidd lle y caiff dechrau busnes a hunangyflogaeth eu cyflwyno fel dewisiadau realistig a rhoi’r hyder i bobl ifanc weithio mewn ffordd entrepreneuraidd
  - **Dysgu** - sicrhau bod pobl ifanc yn cael y sgiliau, yr wybodaeth a’r profiadau perthnasol i feithrin eu gallu i ymddwyn mewn ffordd entrepreneuraidd
  - **Cymorth** - lle y bo’n briodol, darparu cymorth busnes perthnasol i alluogi pobl ifanc i ddatblygu eu syniadau a dechrau busnes
- **Partneriaid darparu sy’n dod** o ystod eang o sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol

# Atodiad 2: Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu

	Camau Gweithredu	Arweinydd	Partneriaid
Ymgysylltu	Lansio Syniadau Mawr Cymru fel ymgyrch i ymgysylltu â phobl ifanc a phartneriaid ac ennyn eu diddordeb	AETH	Pob sefydliad partner
	Cynnal gweithgareddau a digwyddiadau penodol i feithrin diddordeb mewn entrepreneuriaeth ac annog pobl ifanc i fod yn entrepreneuriaid, yn arbennig y rheini sy'n ddi-waith a/neu'n economaidd anweithgar	APADGOS	AETH Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch Gyrfa Cymru Y Ganolfan Byd Gwaith Darparwyr dysgu seiliedig ar waith
	Annog busnesau i ymgysylltu â phobl ifanc a sefydliadau academaidd	AETH	APADGOS Busnes Ysgolion Gyrfa Cymru Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch
Grymuso	Darparu canllawiau ar-lein i Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach ar ddysgu entrepreneuriaeth a'i datblygu	APADGOS	Darparwyr Hyfforddiant Ysgolion Sefydliadau Addysg Bellach
	Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu drwy brofiad sydd ar gael i bobl ifanc i archwilio entrepreneuriaeth ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol	AETH/ APADGOS	Awdurdodau Lleol Ysgolion Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch Gyrfa Cymru Sefydliadau ieuencid
	Hyrwyddo rhagoriaeth o ran dysgu ac arwain entrepreneuriaeth drwy rannu a meincodi arfer da yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol	AETH	APADGOS Awdurdodau Lleol Ysgolion Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch
Galluogi	Paratoi pobl ifanc i gymryd y cam nesaf tuag at ddechrau busnes	AETH	Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch CCAUC Y Trydydd Sector
	Cynorthwyo pobl ifanc i ddod yn hunangyflogedig	AETH	Yr Adran Gwaith a Phensiynau APADGOS Y Trydydd Sector
	Sicrhau bod gwasanaethau cymorth yn canolbwyntio ar fusnesau newydd sydd â photensial uchel, yn arbennig mewn sectorau allweddol â blaenoriaeth ac ymysg graddedigion	AETH	Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch CCAUC
	Manteisio ar brofiad ac arbenigedd y gymuned fusnes i gefnogi entrepreneuriaid ifanc	AETH	Busnes Y Trydydd Sector Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch NCGE